

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Canolfan Ddeintyddol Caerfyrddin

Dyddiad yr arolygiad: 05 Awst 2025

Dyddiad cyhoeddi: 05 Tachwedd 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.	Y camau nesaf	19
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	21
	Atodiad C – Cynllun gwella	22

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Ddeintyddol Caerfyrddin ar 05 Awst 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 23 o holiaduron gan gleifion a chwblhawyd pump gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn cael gofal parchus ac urddasol drwy gydol eu taith fel cleifion. Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod yn cael gwasanaeth 'da iawn' ac roedd yr holl adborth a gawsom yn gadarnhaol ynghylch y practis a'r staff. Gwelsom dystiolaeth bod ymdrechion gweithredol ar waith ac yn cael eu cynnal i gefnogi hawliau a thrin unigolion yn gyfartal.

Dywedodd y cleifion wrthym fod iechyd y geg yn cael ei esbonio iddynt mewn modd y gallent ei ddeall, a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal clir ar sut i gynnal iechyd y geg da. Er y gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth ar gael i gleifion yn hyrwyddo iechyd y geg da, prin oedd y wybodaeth hon. Hefyd, gwelsom feysydd i'w gwella yn y daflen wybodaeth i gleifion ac yn y datganiad o ddiben.

Gwelsom fod trefniadau cefnogol ar waith er mwyn sicrhau bod dulliau cyfathrebu effeithiol rhwng y clinigwyr a'r cleifion. Gwelsom hefyd fod y prosesau i reoli apwyntiadau ac i frysennu cleifion y mae angen gofal brys arnynt yn addas.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Y wybodaeth sydd ar gael i gleifion am sut i hyrwyddo iechyd y geg da
- Adolygu a diweddarau'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion yna eu hychwanegu i'w gwefan.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd urddasol a pharchus
- Roedd y practis yn canolbwyntio ar ddarparu gofal i'r cleifion mewn modd amserol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom bractis taclus a threfnus a oedd yn ymddangos ei fod mewn cyflwr boddhaol y tu mewn a'r tu allan. Dywedodd pawb a ymatebodd i'r holiadur staff fod y cyfleusterau'n briodol iddynt gyflawni eu tasgau penodol. Dywedodd yr ymatebwyr hefyd fod yr amgylchedd yn briodol i sicrhau bod cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt.

Gwelsom fod cyfarpar deintyddol y practis mewn cyflwr da a bod gweithdrefnau cadarn ar waith i sicrhau bod cyfarpar aml dro yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio'n briodol yn ystafell ddihalogi'r practis.

Roedd yr holl gyfarpar brys ar gael yn y practis ac roeddent o fewn y dyddiadau defnyddio. Roedd yr holl feddyginiaethau yn cael eu rheoli'n gywir ac roedd y silindrau ocsigen yn cael eu gwasanaethu yn unol â gofynion y gweithgynhyrchwr. Fodd bynnag, nid oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ocsigen penodol BOC yn unol â Hysbysiad Diogelwch Cleifion (PSN) 041 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod contract iechyd galwedigaethol priodol ar waith
- Atgyfnerthu'r systemau sydd ar waith i atal y practis rhag gweithredu heb ddarpariaeth cymorth cyntaf.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y mesurau diogelu yn gynhwysfawr ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- Roedd yr amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw i safon dda a'i gadw'n lân
- Roedd cofnodion y cleifion yn rhoi darlun cynhwysfawr o'r gofal a roddwyd i'r cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Dangosodd y camau i ryngweithio â staff a welsom yn ystod yr arolygiad eu bod yn cefnogi ei gilydd a bod amgylchedd gweithio cadarnhaol yn y practis. Roedd yr ymatebion i holiadur staff AGIC yn gadarnhaol. Dywedodd yr holl ymatebwyr bod eu patrwm gwaith yn eu galluogi i sicrhau cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith a bod y practis yn cymryd camau cadarnhaol mewn perthynas ag iechyd a llesiant.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau eu hyfforddiant gorfodol a bod y staff yn cael amser i gwblhau cyrsiau yn ystod oriau gwaith. Dywedodd pob aelod o'r staff a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl. Roedd pob un o'r cofnodion staff a welsom yn gwbl gyflawn, gan gynnwys cofrestriadau cyfredol â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwiriadau geirdaon cyn cyflogi. Gwelsom fod gweithdrefnau sefydlu yn cael eu rheoli mewn modd cefnogol ar gyfer aelodau newydd o staff a bod arfarniadau staff yn cael eu cynnal bob blwyddyn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod archwiliadau rhoi'r gorau i smygu integredig yn cael eu cwblhau fel mater o drefn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y system a oedd ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion yn effeithiol
- Roedd strwythurau rheoli clir a oedd yn helpu i redeg y practis yn effeithiol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol. Nododd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth a gawsant gan y practis yn 'dda iawn'. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r staff yn wych, ac mae'r gofal a ddarperir yn anhygoel.”

“Gofal eithriadol. Cefais alwad ffôn ddilynol i holi sut oeddwn i. Awyrgylch hynod o hamddenol gan fy mod yn glaf nerfus.”

“Y practis gorau i mi fynd iddo erioed!”

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod y ffioedd ar gyfer yr holl wasanaethau wedi'u nodi'n glir yn y llyfryn gwybodaeth i gleifion ac ar-lein. Roedd enwau'r staff clinigol a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yr oriau agor a manylion cyswllt mewn argyfwng i gyd wedi'u harddangos lle y gellid eu gweld yn hawdd gan y cleifion.

Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth ar gael i'r cleifion gan gynnwys gwybodaeth ar roi'r gorau i smygu ac adnabod arwyddion sepsis. Fodd bynnag, prin oedd y wybodaeth oedd yn cael ei harddangos i'r cleifion neu oedd ar gael iddynt fynd gyda nhw mewn perthynas â chynnal iechyd y geg da.

Dylai'r rheolwr cofrestredig wella'r wybodaeth sydd ar gael i'r cleifion ar gyfer hyrwyddo hylendid deintyddol da ac iechyd y geg.

Roedd taflen wybodaeth i gleifion y practis ar gael yn ffolder y claf yn y dderbynfa. Gwelsom mai prin oedd y manylion oedd ar gael ar y mathau o wasanaethau a ddarperir a'r cyfleusterau sydd ar gael. Rhoddwyd rhywfaint o'r wybodaeth hon yn y datganiad o ddiben ond nid oedd yn cyfateb ar draws y ddwy ddogfen. Hefyd, nid

oedd yr un o'r dogfennau hyn yn cynnwys manylion cyswllt llawn ar gyfer y practis na manylion llawn cymwysterau a phrofiad y staff. Roedd y practis wedi uno yn ddiweddar ac roedd wrthi'n diweddarau'r holl ddogfennaeth i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

Ni welsom gopi o ddatganiad o ddiben y practis a'r daflen wybodaeth i gleifion sydd ar gael ar y wefan ar gyfer y lleoliad hwn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:

- Adolygu a diweddarau'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion
- Ychwanegu'r ddwy ddogfen a ddiweddarwyd i'r wefan.

Nododd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod eu hiechyd y geg yn cael ei esbonio iddynt mewn modd y gallent ei ddeall, a'u bod yn cael cyfarwyddiadau ôl-ofal clir ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal urddasol a pharchus drwy gydol eu taith fel claf. Dywedodd yr holl gleifion a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch a bod y staff wedi gwrandio arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau. Roedd sylwadau'r cleifion am y driniaeth a gawsant yn cynnwys:

“Gwnaethon nhw sicrhau fy mod i'n teimlo'n gyfforddus ynghylch y driniaeth yr oeddwn i'n ei chael. Roedden nhw'n gwrandio hefyd.”

“Staff cyfeillgar iawn sy'n barod i helpu.”

“Croesawgar a phroffesiynol iawn. Gwneud i chi deimlo'n gyfforddus.”

Roedd y brif ardal aros i gleifion o fewn pellter clywed i ddesg y dderbynfa lle'r oedd galwadau ffôn yn cael eu cymryd. Fodd bynnag, ni chlywsom unrhyw wybodaeth gyfrinachol yn cael ei thrafod dros y ffôn yn ystod ein harolygiad a dywedodd y staff wrthym nad oedd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei hailadrodd gan staff y dderbynfa. Roedd ystafell ochr yn cael ei defnyddio pan oedd y cleifion am drafod materion yn gyfrinachol â'r staff. Roedd drysau solet ar ddeintyddfeydd y practis, a oedd yn cael eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau. Nid oedd modd gweld drwy ffenestri'r practis a oedd yn atal y cleifion rhag cael eu gweld wrth gael eu trin. Roedd y mesurau hyn yn sicrhau na ellid clywed gwybodaeth gyfrinachol am gleifion ac yn cynnal preifatrwydd y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion.

Roedd polisi cyfrinachedd cleifion ar waith ac roedd pob aelod o'r staff wedi llofnodi i nodi ei fod yn deall ei gyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu gwybodaeth am gleifion. Dywedodd pob aelod o'r staff a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym fod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal a'u bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a roddir i'r cleifion. Gwelsom fod y naw egwyddor graidd a baratowyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn y dderbynfa.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd yr holl gleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, costau'r triniaethau a gwybodaeth am y risgiau a'r manteision. Dywedodd yr holl gleifion hefyd fod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol eu hapwyntiad a bod eu hanes meddygol wedi'i wirio cyn iddynt gael triniaeth. Roedd yr holl gleifion a staff a ymatebodd i holiadur AGIC yn teimlo bod y cleifion yn cael eu hysbysu a'u cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal a dywedodd pob aelod o'r staff mai gofal y cleifion yw prif flaenoriaeth y practis. Dywedodd yr holl ymatebwyr hefyd os byddai angen gofal deintyddol ar ffrind neu berthynas y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir yma.

Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion (21/22) eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r lleoliad yn datrys unrhyw bryderon ar ôl triniaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion (21/22) hefyd yn cytuno eu bod wedi cael canllawiau addas ar yr hyn y dylid ei wneud yn achos haint neu argyfwng.

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom fod y broses rheoli apwyntiadau a oedd ar waith yn defnyddio amser yr ymarferwyr yn briodol. Byddai cleifion yn trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb ar ôl eu hapwyntiadau. Dywedodd y staff wrthym mai anaml yr oedd apwyntiadau yn rhedeg yn hwyr ond pe bai apwyntiad yn para'n hirach na'r amser a neilltuwyd, y byddai'r clinigwyr y rhoi gwybod i'r dderbynfa am unrhyw oedi. Byddai'r staff yn cysylltu â'r cleifion dros y ffôn os oeddent yn gwybod y byddai oedi cyn iddynt gyrraedd. Gwelsom fod y trefniadau a oedd ar waith yn sicrhau bod unrhyw achosion o oedi gydag apwyntiadau yn cael eu cyfleu i'r cleifion mewn modd amserol, a bod apwyntiadau amgen yn cael eu cynnig ar gais.

Gwelsom fod system brysbenno cleifion dros y ffôn briodol ar waith i roi blaenoriaeth i'r rheini yr oedd angen gofal brys arnynt fwyaf. Gwelsom fod amser yn cael ei neilltuo yn y dyddiadur bob dydd ar gyfer apwyntiadau brys, a dywedodd y staff wrthym na fyddai unrhyw glaf yn gorfod aros mwy na 24 awr i gael ei weld. Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau yn cael ei roi i'r cleifion allu cysylltu â'r practis mewn argyfwng. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC

(18/22) y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar ofal deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Dywedodd y staff wrthym fod gan bob clinigydd amseroedd aros gwahanol rhwng apwyntiadau ond nad oedd unrhyw glaf yn aros mwy na dwy wythnos i gael ei weld fel arfer. Lle y bo'n bosibl, roedd apwyntiadau yn cael eu trefnu'n unol ag argaeledd y cleifion. Nododd y rhai a ymatebodd i arolwg AGIC i gleifion eu bod wedi ei chael hi'n 'hawdd iawn' (20/23) neu'n 'eithaf hawdd' (3/23) cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod trefniadau cefnogol ar waith i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y clinigydd a'r cleifion. Roedd adnoddau cyfieithu ar-lein yn cael eu defnyddio, lle y bo angen, i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Roedd dogfennau ar gael mewn fformatau gwahanol, a byddai dogfennau mwy arbenigol yn cael eu darparu ar gais.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom dystiolaeth bod ymdrechion gweithredol ar waith i gefnogi hawliau ac i drin unigolion yn gyfartal. Roedd gan y practis bolisiâu a gweithdrefnau priodol ar waith i gefnogi hawliau'r cleifion a'r staff, ac roedd y staff yn cael hyfforddiant i gefnogi'r hawliau hyn fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus.

Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod yr adeilad yn hygyrch. Gwelsom enghreifftiau o addasiadau rhesymol a oedd ar waith i'r cleifion, gan gynnwys lifft risiau. Hefyd, roedd y practis newydd osod bwrdd newid cewynnau am fod eu cleifion yn cynnwys nifer cynyddol o rieni newydd. Un enghraifft arall oedd bod un aelod o'r staff wedi cael cadair arbenigol fel addasiad ar gyfer cyflwr iechyd. Roedd hawliau'r cleifion yn cael eu cynnal ymhellach drwy eu galluogi i ddewis y rhagenwau, yr enwau a'r rhywedd a ffefrir ganddynt ar eu cofnodion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod y practis yn daclus ac yn drefnus a'i fod wedi'i addurno i safon uchel. Roedd yr adeilad, i bob golwg, mewn cyflwr boddhaol y tu mewn a'r tu allan. Roedd y practis wedi'i drefnu dros ddau lawr, gydag ardaloedd aros o faint priodol ar gyfer nifer y cleifion. Roedd ramp yn cael ei ddefnyddio yn y cefn ac roedd lifft risiau i'r llawr uchaf er mwyn helpu'r rhai hynny ag anawsterau symudedd. Clywsom y llinellau ffôn yn gweithio'n effeithiol a gwelsom fod ardaloedd newid addas â loceri ar gael i'r staff. Gwelsom fod toiledau'r staff a thoiledau'r cleifion yn lân ac yn cynnwys digon o gyfarpar. Nododd yr holl ymatebwyr a gwblhaodd holiadur staff AGIC fod yr holl gyfleusterau yn briodol er mwyn iddynt gwblhau eu tasgau penodol. Dywedodd yr ymatebwyr hefyd fod yr amgylchedd yn briodol i sicrhau bod cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt.

Roedd polisïau a gweithdrefnau boddhaol ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff. Gwelsom fod asesiadau risg diweddar wedi cael eu cynnal ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch a'u bod yn gynhwysfawr. Roedd tystysgrifau gosod yn bodoli ar gyfer y system drydanol a osodwyd yn 2021 gan gcontractwyr. Roedd tystysgrifau hefyd ar gael ar gyfer Profion Offer Cludadwy a gynhaliwyd yn ddiweddar. Roedd y cynlluniau parhad busnes a chynnal a chadw adeiladau yn addas a nodwyd gennym fod trefniadau diogelwch tân cadarn a chynhwysfawr ar waith ar gyfer atal a chanfod tân. Roedd y trefniadau diogelwch tân hyn yn cynnwys cynnal a chadw'r cyfarpar yn rheolaidd ac arddangos arwyddion allanfeydd tân a dim smygu yn glir.

Roedd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr y practis wedi'i harddangos yn y dderbynfa ac roedd poster yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi'i arddangos yn ardal y staff.

Roedd yr eitemau o gyfarpar deintyddol a oedd yn cael eu defnyddio yn y practis mewn cyflwr da ac roedd digon ohonynt ar gael fel bod modd eu dihalogi'n effeithiol ar ôl eu defnyddio. Roedd eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod polisïau a'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau priodol ar waith i gynnal lefel dda o lendid ym mhob rhan o'r practis. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod y practis yn 'lân iawn' a dywedodd yr holl aelodau o staff a ymatebodd i holiadur AGIC fod gan y practis bolisi atal a rheoli heintiau

effeithiol. Dywedodd y staff hefyd fod amgylchedd y practis yn sicrhau y gellid cael prosesau atal a rheoli heintiau a dihalogi effeithiol, a bod amserlenni glanhau ar waith i hyrwyddo arferion i lanhau'r practis yn rheolaidd ac yn effeithiol.

Roedd trefniadau diogel ar waith i reoli offer miniog, gan gynnwys arddangos protocolau ar gyfer anafiadau gan offer miniog mewn ardaloedd clinigol. Fodd bynnag, ni wnaethom lwyddo i sefydlu a oedd gan y lleoliad ddarparwr iechyd galwedigaethol. Cawsom ein hysbysu gan y practis eu bod yn credu bod eu gwasanaeth iechyd galwedigaethol yn cael ei gynnal drwy'r bwrdd iechyd, ond mai dim ond deintyddiaeth breifat oedd yn mynd rhagddi, ac nad oedd unrhyw wasanaethau'r GIG ar gael. Felly, ni chawsom sicrwydd bod contract priodol ar waith i ddiogelu'r staff.

Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod contract iechyd galwedigaethol priodol ar waith.

Gwelsom fod yr holl gyfarpar a'r amgylchedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n foddhaol fel bod modd eu glanhau a'u dihalogi'n effeithiol. Roedd mesurau addas ar waith i sicrhau bod cyfarpar aml dro yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio'n gywir yn ystafell ddihalogi'r practis. Cadarnhaodd y cofnodion hyfforddiant y gwnaethom edrych arnynt fod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant priodol ar ddihalogi'r cyfarpar. Gwelsom gofnodion priodol a oedd yn dangos bod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal o gylchredau'r peiriant awtoclaf a bod amserlen o waith cynnal a chadw rheolaidd ar waith yn unol â'r canllawiau presennol.

Gwelsom fod Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gael a dywedodd yr aelodau o'r staff a ymatebodd i holiadur AGIC fod PPE priodol yn cael ei gyflenwi a'i ddefnyddio. Gwelsom fod y staff a'r cleifion yn cael eu cyfeirio at weithdrefnau hylendid dwylo.

Roedd yr holl wastraff clinigol yn cael ei storio a'i waredu'n gywir drwy contract gwaredu gwastraff addas. Roedd y prosesau a oedd ar waith ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn foddhaol.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin, storio, defnyddio a gwaredu meddyginiaethau. Roedd yr oergell a ddefnyddir i storio meddyginiaethau yn cael ei rheoli'n gywir ac roedd gwiriadau tymheredd yn cael eu cofnodi'n addas.

Wrth archwilio'r cyfarpar brys, gwelsom fod yr holl eitemau yn bresennol, yn hawdd cael gafael arnynt ac o fewn eu dyddiadau defnyddio. Gwnaethom nodi bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r holl gyfarpar brys. Gwelsom dystiolaeth o wiriadau cynnal a chadw a gwasanaethu gofynnol wedi'u cynnal ar y silindrau

ocsigen a bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant sylfaenol i'w defnyddio. Fodd bynnag, nid oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ocsigen penodol BOC yn unol â Hysbysiad Diogelwch Cleifion (PSN) 041 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Rhaid i'r practis gwblhau'r camau gweithredu a nodir yn Hysbysiad Diogelwch Cleifion 041, gan gynnwys gofynion hyfforddiant.

Gwelsom fod yr holl staff yn y sampl o gofnodion y gwnaethom edrych arnynt wedi cwblhau cwrs adfywio cardiopwlmonaidd a chwrs rheoli cymorth cyntaf ar-lein ychwanegol. Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf dynodedig, fodd bynnag, nid oedd gan yr un o'r aelodau hyn o staff gymwysterau cymorth cyntaf cyfredol dilys. Roedd y ddau aelod o staff wedi bod yn gymwys yn y gorffennol ond ni ellid dod o hyd i'r tystysgrifau, yn rhannol am eu bod wedi symud o system bapur i system ddigidol yn ddiweddar. Roedd y ddau wedi cwblhau hyfforddiant gloywi ar-lein yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er ei bod yn galonogol nodi bod dau aelod o'r staff wedi cofrestru i gael cwrs hyfforddiant cymorth cyntaf wyneb-yn-wyneb ar 28 Awst 2025, mae angen i ni gael sicrwydd bod system yn cael ei rhoi ar waith i sicrhau na fydd y practis heb ddarpariaeth cymorth cyntaf yn y dyfodol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- **Mae nifer addas o'r aelodau o staff yn swyddogion cymorth cyntaf cymwys**
- **Mae system gadarn ar waith i sicrhau na fydd y practis yn gweithredu heb ddarpariaeth cymorth cyntaf yn y dyfodol.**

Diogelu plant ac oedolion

Roedd gweithdrefnau diogelu cynhwysfawr a chyfredol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion. Roedd y gweithdrefnau yn ystyried Gweithdrefnau Diogelu Cymru, yn cynnwys manylion cyswllt gwasanaethau cymorth lleol ac yn nodi arweinydd diogelu a enwir ar gyfer y practis. Roedd diweddariadau i bolisiâu a gweithdrefnau diogelu yn cael eu rhannu drwy aelodaeth y practis â chwmni cydymffurfiaeth ddeintyddol ac archwiliadau rheolaidd â'r gwasanaethau cymdeithasol.

O'r sampl o gofnodion staff a welsom, gwelwyd bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant addas ar ddiogelu plant ac oedolion.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod y dyfeisiau meddygol a'r cyfarpar clinigol mewn cyflwr da ac yn addas at y diben, a oedd yn caniatáu ar gyfer darparu gofal diogel i'r cleifion. Roedd cyfarpar deintyddol amlbro yn cael ei reoli mewn modd a oedd yn hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw ac arsylwi arnynt yn

ystod yr arolygiad yn hyderus wrth ddefnyddio'r cyfarpar. Nodwyd gennym fod trefniadau ar waith ar gyfer gwasanaethu'r holl gyfarpar ac ar gyfer ymateb yn gyflym i fethiant system yr holl gyfarpar.

Roedd y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer defnyddio peiriannau pelydr-X yn ddiogel yn addas. Roedd ffolder diogelu rhag ymbelydredd y practis a chopïau o'r rheolau lleol ar gael yn hawdd ac wedi'u cwblhau. Yn nodiadau'r cleifion, gwelsom fod y clinigwyr yn nodi'n glir y trafodaethau a geir ynghylch risgiau a manteision amlygiad i ymbelydredd a chafwyd darlun llawn o'r triniaethau radiograffig. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant addas ar gysylltiadau ag ymbelydredd ar gyfer eu rolau.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod y staff yn asesu'r cleifion ac yn gwneud diagnosis o anghenion y cleifion yn ddiogel. Roedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn dangos bod triniaethau yn cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol, ac yn unol â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol.

Dangosodd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau yn y practis ac roeddent hefyd yn gwybod pryd i geisio cyngor proffesiynol perthnasol pe bai angen.

Gwelsom fod prosesau addas ar waith i gofnodi bod y cleifion yn deall y gweithdrefnau ac yn cydsynio iddynt.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfanswm o 10 claf yn ystod ein harolygiad. Roedd y cofnodion yn cael eu cadw ar system ddigidol ddiogel, yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Roedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn rhoi darlun cynhwysfawr o'r gofal a ddarperir i'r cleifion. Roedd y cofnodion yn cynnwys proses addas o gofnodi cydsyniad ar sail gwybodaeth, sgrinio cancer y geg, siartiau sylfaenol llawn, gwiriadau y tu mewn a'r tu allan i'r geg ynghyd â'r triniaethau a ddarperir.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Roedd yr ymatebion i holiadur staff AGIC yn gadarnhaol. Dywedodd yr holl ymatebwyr bod eu patrwm gwaith yn eu galluogi i sicrhau cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith a bod y practis yn cymryd camau cadarnhaol mewn perthynas ag iechyd a llesiant. Dywedodd un aelod o'r staff:

“Mae gan y practis dîm da ar waith, ac maent yn cydweithio'n dda.”

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Gwnaethom nodi bod strwythur rheoli clir ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol. Esboniodd rheolwr y practis ei fod wedi cael y cymorth a'r hyfforddiant priodol i gyflawni ei rôl arwain yn effeithiol. Dywedodd un o'r ymatebwyr i holiadur cleifion AGIC:

“Roedd popeth yn dda. Caiff ei reoli'n dda iawn.”

Gwelsom fod cyfarfodydd staff anffurfiol yn cael eu cynnal bob diwrnod a bod cyfarfodydd staff ffurfiol yn cael eu cynnal bob mis a bod pob aelod o'r staff yn bresennol ynddynt. Wrth adolygu cofnodion y cyfarfodydd staff, gwnaethom nodi trafodaethau addas ynghylch hyfforddiant, adborth cleifion a gweithgareddau gwella ansawdd.

Roedd system addas yn cael ei defnyddio i nodi, cofnodi a rheoli risgiau, materion ac unrhyw ffactorau lliniaru. Roedd holl bolisiau'r practis yn gyfredol ac yn gynhwysfawr, ac roedd unrhyw newidiadau iddynt yn cael eu rhannu â'r staff mewn modd amserol.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Dangosodd y rhyngweithio rhwng y staff eu bod yn rhoi cefnogaeth gref i'w gilydd a bod amgylchedd gweithio cadarnhaol yn y practis. Gwelsom fod gweithdrefnau sefydlu yn cael eu rheoli mewn modd cefnogol ar gyfer aelodau newydd o staff a bod arfarniadau staff yn cael eu cynnal bob blwyddyn. Dywedodd yr holl aelodau o staff a ymatebodd i'r holiadur wrthym eu bod wedi cael arfarniad o fewn y 12 mis diwethaf.

Roedd system briodol ar waith i sicrhau bod nifer addas o staff cymwysedig yn gweithio ar unrhyw adeg benodol. Dywedodd yr aelodau o staff a ymatebodd i'r arolwg fod maint y tîm yn briodol i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn a bod cymysgedd priodol o sgiliau yn y practis. Dywedodd yr ymatebwyr hefyd eu bod yn gallu ymdopi â'r gofynion croes yn y gwaith.

Gwnaethom adolygu cofnod cyfanswm o bum aelod o staff allan o'r naw a oedd yn gweithio yn y practis. Ar y cyfan, roedd y lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol o safon uchel, er, fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, nid oedd unrhyw swyddogion cymorth cyntaf hyfforddedig. Roedd yr holl aelodau o staff yn cael amser i ymgymryd â hyfforddiant, a dywedwyd wrthym fod y staff yn cael eu cefnogi i gwblhau hyfforddiant ychwanegol sy'n berthnasol i'w rolau a oedd yn amlwg yn y cofnodion a welsom. Dywedodd pob aelod o'r staff a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl.

Roedd trefniadau addas ar waith i fonitro a chynnal rhwymedigaethau proffesiynol y staff hynny a oedd yn gweithio yn y practis o'r adeg y gwnaethant ddechrau gweithio yno. Roedd pob un o'r cofnodion staff a welsom yn gwbl gyflawn, gan gynnwys cofrestriadau cyfredol â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwiriadau geirdaon cyn cyflogi. Roedd system gydymffurfiaeth ddigidol yn cael ei defnyddio i sicrhau bod cofnodion pob aelod o'r staff yn gyfredol.

Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith i roi arweiniad ar sut y gall y staff godi pryderon. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur staff AGIC eu bod yn cael eu hannog i roi gwybod am bryderon, ac y byddai'r staff yn eu trin yn deg pe baent yn gwneud hynny. Dywedodd yr holl aelodau o staff hefyd y byddai'r practis yn cymryd camau i sicrhau na fyddai digwyddiadau'n codi eto.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd system addas ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion. Anfonwyd neges at y cleifion ar ôl eu hapwyntiad yn gofyn iddynt gwblhau adborth ar-lein. Roedd ffurflenni adborth hefyd ar gael yn y dderbynfa i'r cleifion eu cwblhau, ynghyd â blwch awgrymiadau. Roedd arolygon boddhad cleifion yn cael eu cynnal bob blwyddyn ac roedd adolygiad blynyddol o unrhyw themâu allweddol o'r adborth hefyd yn cael ei gynnal. Dywedodd rheolwr y practis wrthym ei bod yn adolygu'r adborth ar ôl ei dderbyn, a bod hyn yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd staff. Roedd hysbysfwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni' yn cael ei ddefnyddio i hysbysu'r cleifion ynghylch unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniad i'w hadborth.

Roedd y weithdrefn gwyno wedi'i hamlinellu yn y ffolder gwybodaeth i gleifion a oedd ar gael yn y dderbynfa. Roedd amserlen glir ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion wedi'i nodi yn y polisi, ynghyd â chyswllt dynodedig a gwybodaeth am drefniadau eiriolaeth. Roedd manylion AGIC wedi'u cynnwys yn nhaflen gwynion y practis i gleifion. Roedd unrhyw gwynion a wnaed ar lafar yn cael eu huwchgyfeirio at reolwr y practis ac wedyn yn cael eu cofnodi ar system cydymffurfiaeth ddigidol ynghyd â'r holl gwynion eraill. Er nad oedd cofnodion o unrhyw gwynion diweddar i ni eu gweld, cawsom sicrwydd fod y prosesau a oedd ar waith yn gadarn. Dywedodd yr holl staff fod adborth ar brofiad cleifion yn cael ei gasglu.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod dull rhagweithiol o wella ansawdd ar waith a bod y rhan fwyaf o'r gweithgareddau gwella gorfodol yn cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau cynhwysfawr a rheolaidd o gofnodion cleifion, rhagnodi gwrthficrobaidd, gwastraff gofal iechyd ac archwiliadau atal a rheoli heintiau. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth bod archwiliadau integredig ar roi'r gorau i smygu wedi cael eu cynnal.

Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod archwiliadau integredig ar roi'r gorau i smygu'n cael eu cwblhau fel mater o drefn.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Canolfan Ddeintyddol Caerfyrddin

Dyddiad yr arolygiad: 05 Awst 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Ddeintyddol Caerfyrddin

Dyddiad yr arolygiad: 05 Awst 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth ar gael i'r cleifion gan gynnwys gwybodaeth ar roi'r gorau i smygu ac adnabod arwyddion sepsis. Fodd bynnag, prin oedd y wybodaeth oedd yn cael ei harddangos i'r cleifion neu oedd ar gael iddynt fynd gyda nhw mewn perthynas â chynnal iechyd y geg da.	Dylai'r rheolwr cofrestredig wella'r wybodaeth sydd ar gael i'r cleifion ar gyfer hyrwyddo hylendid deintyddol da ac iechyd y geg.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 9.	Rydym bellach wedi rhoi amrywiaeth eang o daflenni i'n cleifion i hyrwyddo hylendid deintyddol ac iechyd y geg da yn ein hystafell aros iddynt edrych arnynt a mynd â nhw adref os byddant yn dymuno. Cânt eu hadnewyddu fel sy'n ofynnol.	Erica Day	Parhaus

2. Gwelsom mai prin oedd y manylion oedd ar gael ar y mathau o wasanaethau a ddarperir a'r cyfleusterau sydd ar gael. Rhoddwyd rhywfaint o'r wybodaeth hon yn y datganiad o ddiben ond nid oedd yn cyfateb ar draws y ddwy ddogfen. Hefyd, nid oedd yr un o'r dogfennau hyn yn cynnwys manylion cyswllt llawn ar gyfer y practis na manylion llawn cymwysterau a phrofiad y staff. Roedd y practis wedi uno yn ddiweddar ac roedd wrthi'n diweddar'u'r holl ddogfennaeth i adlewyrchu'r newidiadau hyn.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol: • Adolygu a diweddar'u'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion • Ychwanegu'r ddwy ddogfen a ddiweddarwyd i'r wefan.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 5 a Rheoliad 6.	Rydym wedi adolygu a diweddar'u ein Datganiad o Ddiben a'n Taflen Wybodaeth i Gleifion ac maent wedi cael eu hychwanegu i'n gwefannau. Rydym hefyd wedi adolygu a diweddar'u ein cyflwyniad gwybodaeth Power Point sy'n chwarae yn y dderbynfa yn dangos y gwasanaethau a gynigir gennym.	Erica Day	Parhaus
--	---	--	---	------------------	----------------

	Ni welsom gopi o ddatganiad o ddiben y practis a'r daflen wybodaeth i gleifion sydd ar gael ar y wefan ar gyfer y lleoliad hwn.					
3.	Ni wnaethom lwyddo i sefydlu a oedd gan y lleoliad ddarparwr iechyd galwedigaethol. Cawsom ein hysbysu gan y practis eu bod yn credu bod eu gwasanaeth iechyd galwedigaethol yn cael ei gynnal drwy'r bwrdd iechyd, ond mai dim ond deintyddiaeth breifat oedd yn mynd rhagddi, ac nad oedd unrhyw wasanaethau'r GIG ar gael. Felly, ni chawsom sicrwydd bod contract priodol ar	Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod contract iechyd galwedigaethol priodol ar waith.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13).	Gwnaethom sefydlu bod angen i ni gofrestru â chwmni allanol a fyddai'n rhoi yswiriant lechyd Galwedigaethol i bob aelod o'r tîm. Rydym wedi cofrestru ag 'insight Workplace Health' ac mae gennym gontract priodol ar waith bellach.	Erica Day	Parhaus

	waith i ddiogelu'r staff.					
4.	Gwelsom dystiolaeth o wiriadau cynnal a chadw a gwasanaethu gofynnol wedi'u cynnal ar y silindrau ocsigen a bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant sylfaenol i'w defnyddio. Fodd bynnag, nid oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ocsigen penodol BOC yn unol â Hysbysiad Diogelwch Cleifion (PSN) 041 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.	Rhaid i'r practis gwblhau'r camau gweithredu a nodir yn Hysbysiad Diogelwch Cleifion 041, gan gynnwys gofynion hyfforddiant.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13).	Mae'r holl aelodau o staff wedi darllen a chydabod 'Silindrau ocsigen: adroddiad rheoliad 28 a nodyn atgoffa hysbysiad diogelwch cleifion 041' i sicrhau eu bod yn deall yr angen i gwblhau eDdysgu BOC ar gyfer silindrau ocsigen. Mae'r holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ac mae hyn wedi'i gynnwys yn ein matrices hyfforddiant	Erica Day	Parhaus
5.	Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf dynodedig, fodd bynnag, nid oedd gan yr un o'r aelodau hyn o staff	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol: • Mae nifer addas o'r aelodau o staff yn	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13).	Ers hyn, mae un aelod o'r staff wedi cwblhau ei gwrs cymorth cyntaf yn y gwaith ac rydym wedi tynnu sylw at hyn ar y gwaith papur	Erica Day	2/10/25 Parhaus

gymwysterau cymorth cyntaf cyfredol dilys. Roedd y ddau aelod o staff wedi bod yn gymwys yn y gorffennol ond ni ellid dod o hyd i'r tystysgrifau, yn rhannol am eu bod wedi symud o system bapur i system ddigidol yn ddiweddar. Roedd y ddau wedi cwblhau hyfforddiant gloywi ar-lein yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er ei bod yn galonogol nodi bod dau aelod o'r staff wedi cofrestru i gael cwrs hyfforddiant cymorth cyntaf wyneb-yn-wyneb ar 28 Awst 2025, mae angen i ni gael sicrwydd bod system yn cael ei rhoi ar waith i sicrhau na fydd y practis heb	swyddogion cymorth cyntaf cymwys • Mae system gadarn ar waith i sicrhau na fydd y practis yn gweithredu heb ddarpariaeth cymorth cyntaf yn y dyfodol.	Rheoliadau lechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981, Rheoliad 3.	perthnasol, a bydd ein hail swyddog cymorth cyntaf yn y gwaith yn cwblhau ei ddiwrnod hyfforddiant ar 2/10/25. Mae hyn wedi'i nodi yn ein matrices hyfforddiant.		
--	--	---	--	--	--

	ddarpariaeth cymorth cyntaf yn y dyfodol.					
6.	Gwelsom fod dull rhagweithiol o wella ansawdd ar waith a bod y rhan fwyaf o'r gweithgareddau gwella gorfodol yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth bod archwiliadau integredig ar roi'r gorau i smygu wedi cael eu cynnal.	Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod archwiliadau integredig ar roi'r gorau i smygu'n cael eu cwblhau fel mater o drefn.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 16).	Rydym wedi cwblhau ein harchwiliad cyntaf ar roi'r gorau i smygu ac wedi'i ychwanegu at ein rhestr wirio archwilio i gael ei gwblhau bob blwyddyn.	Erica Day	Parhaus

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): ERICA DAY
Teitl swydd: Rheolwr y Practis
Dyddiad: 15/09/2025